



Department
for Environment
Food & Rural Affairs

Dynodiadau Daearyddol

Ymgynghoriad ynghylch sefydlu cynlluniau Dynodiadau Daearyddol y DU ar ôl Gadael yr UE

Hydref 2018



(h) Hawlfraint y Goron 2018

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau fersiwn 3 y Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu e-bostiwch PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn:

GI_scheme_consultation@defra.gsi.gov.uk

www.gov.uk/defra

Cynnwys

1. Cefndir yr ymgynghoriad.....	4
2. Cyflwyniad i Ddynodiadau Daearyddol	5
3. Newidiadau o ran gweithredu	6
Rheoliadau ynglŷn â gwirodydd a gwin	9
4. Diwygiadau i ddarpariaethau cynlluniau Dynodiadau Daearyddol presennol	10
Logos a symbolau'r DU	10
Apeliadau:	11
5. Crynodeb o gwestiynau'r ymgynghoriad	13
6. Amserlen.....	13

1. Cefndir yr ymgynghoriad

- 1.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â "Rheoliadau Cynhyrchion Amaethyddol a Bwydydd, Gwirodydd, Gwin a Gwin wedi'i Bersawru o Ansawdd (Diwygiadau etc.) (Gadael yr UE) 2018". Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio pedwar¹ rheoliad sy'n ymwneud â'r UE, y bydd Deddf yr UE (Ymadael) 2018 yn eu cyflwyno i gyfraith y DU ar 29 Mawrth 2019. Bydd y diwygiadau a wneir gan y rheoliadau yn:
- a) creu cynlluniau Dynodiadau Daearyddol gweithredol yn y DU (tua 85% o gynnwys y rheoliadau)
 - b) sicrhau y byddwn yn parhau i reoleiddio'r sectorau gwinoedd a gwirodydd yn effeithiol (tua 15%).
- 1.2 Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi newidiadau cyfreithiol a wnaed i gynlluniau Dynodiadau Daearyddol presennol yr UE er mwyn sefydlu cynlluniau Dynodiadau Daearyddol y DU ac yn ceisio barn rhanddeiliaid ar y diwygiadau gweithdrefnol angenrheidiol y cynigir y dylid eu gwneud i gynlluniau Dynodiadau Daearyddol presennol yr UE. Mae hefyd yn ymdrin â'r newidiadau i reoliadau'r UE sy'n ymwneud â gwin a gwirodydd; ac yn ceisio barn rhanddeiliaid ar y diwygiadau gweithdrefnol angenrheidiol hyn. Mae hyn yn ofynnol er mwyn sicrhau proses drosglwyddo ddidrafferth i gynlluniau'r DU ar y diwrnod y byddwn yn gadael yr UE.
- 1.3 Byddai cynlluniau Dynodiadau Daearyddol newydd y DU a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn yn sicrhau bod cynhyrchion o'r DU sydd eisoes wedi'u cofrestru o dan gynlluniau Dynodiadau Daearyddol presennol yr UE yn cael eu gwarchod yn awtomatig.
- 1.4 At hynny, rydym yn ceisio sicrhau y bydd Dynodiadau Daearyddol y DU sydd wedi'u cofrestru o dan gynlluniau'r DU yn parhau i gael eu gwarchod yn yr UE. Fodd bynnag, mae'r mater hwn yn destun trafodaethau parhaus.
- 1.5 Bydd y cyfnod ymgynghori yn para 4 wythnos: y dyddiad **cau** ar gyfer cyflwyno sylwadau yw **1 Tachwedd 2018**.

¹ Cynlluniau ansawdd ar gyfer cynhyrchion amaethyddol a bwydydd (1151/2012); Gwin (1308/2013); Gwin wedi'i Bersawru, (251/2015) a Gwirodydd (110/2008) sy'n ymwneud â thri dosbarthiad o ddyfarniad; PDO: Enw Tarddiad Gwarchoddedig; PGI: Dynodiad Daearyddol Gwarchoddedig; a TSG: Gwarant Arbenigedd Traddodiadol (mae PGI yn ymwneud â phob un o'r pedwar rheoliad; mae PDO yn ymwneud â phob un ohonynt heblaw gwin wedi'i bersawru ac mae TSG ond yn ymwneud â rheoliad cynhyrchion amaethyddol a bwydydd).

2. Cyflwyniad i Ddynodiadau Daearyddol

- 2.1 Mae Dynodiadau Daearyddol yn fath o system diogelu eiddo deallusol sy'n nodi bod cynnyrch yn tarddu o wlad, rhanbarth neu ardal lle y gellir priodoli nodwedd benodol ar y cynnyrch, ei enw da neu un o'i nodweddion eraill i'r man lle y caiff ei gynhyrchu.
- 2.2 Mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn cydnabod pwysigrwydd economaidd a diwylliannol Dynodiadau Daearyddol, sydd hefyd yn bwysig i gynnal ein henw da ledled y byd am gynhyrchu bwyd o ansawdd uchel. Mae cynhyrchwyr cynhyrchion â Dynodiadau Daearyddol yn rhoi gwerth ar y cynlluniau am eu bod, gyda'i gilydd, yn gwarchod y cynhyrchion hynny rhag cael eu copïo a'u dwyn i gof ac, mewn rhai achosion, oherwydd y premiwm y mae'n eu galluogi i'w godi arm gynhyrchion.
- 2.3 Mae cyfanswm o 86² o gynhyrchion o'r DU wedi'u cofrestru fel Dynodiadau Daearyddol o dan gynlluniau'r UE: 76 o gynhyrchion amaethyddol a chynhyrchion bwyd, pum gwin a phum gwirod. Mae Dynodiadau Daearyddol y DU yn cyfrif am allforion gwerth £5 biliwn o'r DU bob blwyddyn (25% o holl allforion bwyd a diod y DU yn ôl eu gwerth) ac yn chwarae rôl bwysig mewn economïau gwledig. Cynnyrch pwysicaf y DU yn ôl ei werth yw Wisgi'r Alban, y mae'r DU yn allforio gwerth mwy na £4bn ohono bob blwyddyn. Mae cynhyrchion eraill megis Eog a Ffermir o'r Alban, Cig Eidion yr Alban a Chig Oen yr Alban, Cig Oen ac Eidion Cymru, Caws Stilton a Llyswennod Lough Neagh, gyda'i gilydd, yn werth mwy na £800m y flwyddyn mewn allforion.
- 2.4 Mae'r pedwar cynllun Dynodiadau Daearyddol sy'n gymwys ar hyn o bryd yn y DU yn ddarostyngedig i reolau'r UE. Mae'r rhain yn cwmpasu i) cynhyrchion amaethyddol a bwydydd ii) gwinoedd iii) gwirodydd ac iv) gwinoedd wedi'u persawru. Mae'r cynlluniau yn rhoi diogelwch cyfreithiol i gynhyrchion arbennig rhanbarthol a thraddodiadol, y gellir gwarantu eu dilysrwydd a'u tarddiad, rhag cael eu copïo. Rhydd hyn sicrwydd fod cynhyrchion yn ddilys ac mae'n galluogi cynhyrchwyr i hyrwyddo a marchnata eu cynhyrchion yn well.
- 2.5 Fel un o lofnodwyr cytundeb Agweddau ar Hawliau Eiddo Deallusol sy'n gysylltiedig â Masnach (TRIPS) Sefydliad Masnach y Byd (WTO), mae'n ofynnol i'r DU warchod pob Dynodiad Daearyddol y mae'n ei gydnabod rhag cael ei gopïo a chystadleuaeth annheg. Ar gyfer cynhyrchion amaethyddol a bwydydd, gwinoedd, gwirodydd a gwinoedd wedi'u persawru, cyflawnir hyn ar hyn o bryd o dan bedwar cynllun Dynodiadau Daearyddol presennol yr UE.³

²Fel y'i diweddarwyd ar 14/06/2018 Ceir rhagor o wybodaeth am y cynllun presennol a chynhyrchion o'r DU yn <https://www.gov.uk/government/collections/protected-food-name-scheme-uk-registered-products>

³ Fel y'u nodir yn Rheoliadau'r Cyngor (CE) Rhif 1151/2012 (bwydydd); 1308/2013 (gwin); 110/2008 (gwirodydd); a 251/2015 (gwinoedd wedi'u persawru) a Rheoliadau 606/2009 a 607/2009 y Comisiwn (y mae'r ddau yn ymwneud â gwin)

- 2.6 Er mwyn parhau i gyflawni'r rhwymedigaeth hon ar gyfer y diwrnod cyntaf y byddwn yn gadael yr UE, bydd Deddf yr UE (Ymadael) 2018 yn sicrhau y caiff y darpariaethau a gwmpesir o dan bedwar cynllun Dynodiadau Daearyddol presennol yr UE eu cadw yng nghyfraith y DU.
- 2.7 Mae'r adran o'r ddogfen hon sydd â'r pennawd 'Newidiadau o ran gweithredu' yn ymdrin â'r ffordd y bydd y Llywodraeth yn sicrhau y bydd cynlluniau Dynodiadau Daearyddol presennol yr UE, ar ôl iddynt gael eu cadw yng nghyfraith y DU, yn parhau i gael eu cymhwyso.
- 2.8 Ar yr un pryd, rydym yn ystyried sut y gellir gwella'r trefniadau ar gyfer gorfodi'r cynllun cynhyrchion amaethyddol a bwydydd o ansawdd presennol yn y DU. Bydd y gyfundrefn orfodi yn gymwys i'r holl gynhyrchion a warchodir gan Reoliad 1151/2012 yr UE cyn i'r DU adael yr UE ac ar ôl i ni adael yr UE bydd yn gymwys i gynhyrchion perthnasol a warchodir o dan gynllun Dynodiadau Daearyddol newydd y DU. Byddai'r cynlluniau Dynodiadau Daearyddol newydd a gynigir yn yr ymgynghoriad yn sicrhau bod cynhyrchion o'r DU sydd eisoes wedi'u cofrestru o dan gynlluniau Dynodiadau Daearyddol presennol yr UE yn cael eu gwarchod. Rydym yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ar wahân ar drefniadau gorfodi.

3. Newidiadau o ran gweithredu

- 3.1 Bydd **Deddf yr UE (Ymadael) 2018** yn cadw cynlluniau Dynodiadau Daearyddol yr UE a rheoliadau ynglŷn â gwinoedd a gwirodydd yng nghyfraith y DU ar yr adeg y bydd cyfraith yr UE yn peidio â bod yn gymwys yn y DU, gan sicrhau cysondeb a rhoi sicrwydd i randdeiliaid. Mae'r Ddeddf Ymadael ond yn caniatáu i'r llywodraeth ddiwygio rheolau'r UE er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn yn y DU. Golyga hyn y bydd cynlluniau'r DU yn debyg iawn i reoliadau presennol yr UE ac y bydd Dynodiadau Daearyddol presennol y DU yn parhau i gael eu gwarchod yn y DU. Bydd hyn yn digwydd yn awtomatig, ac ni fydd angen i gynhyrchwyr wneud dim.
- 3.2 Y rheoliadau a fydd yn gwneud y newidiadau angenrheidiol hyn yw Rheoliadau Cynhyrchion Amaethyddol a Bwydydd, Gwirodydd, Gwin a Gwin wedi'i Bersawru o Ansawdd (Diwygiadau etc.) (Gadael yr UE) 2018 (a elwir yma yn **Rheoliadau Gadael yr UE**).
- 3.3 Mae'r rhan fwyaf o'r diwygiadau y mae rheoliadau Gadael yr UE yn eu cyflwyno yn newidiadau i sicrhau y bydd y rheolau yn parhau i weithio yn y DU ac y terfir cyn lleied â phosibl ar randdeiliaid. Byddai enghraifft yn cynnwys rhoi 'Ysgrifennydd Gwladol' yn lle 'Comisiwn [Ewropeaidd]' mewn perthynas â gwneud penderfyniadau, er enghraifft dyfarnu Dynodiadau Daearyddol newydd.

- 3.4 Fodd bynnag, ceir rhai enghreifftiau lle mae angen gwneud diwygiadau mwy sylweddol er mwyn sicrhau y bydd y cynlluniau yn gweithio o dan gyfraith y DU. Mae newidiadau o'r fath yn cynnwys:
- 3.5 Y caiff y cynlluniau Dynodiadau Daearyddol eu gweinyddu fel cynlluniau'r DU, nid fel cynlluniau Ewropeaidd;
- Fel cynlluniau'r DU, aiff pob cais drwy un broses craffu a gwrthwynebu yn y DU, yn hytrach na'r broses dau gam bresennol (caiff camau presennol yr Aelod-wladwriaeth a'r Comisiwn Ewropeaidd eu cyfuno i greu un broses wedi'i haddasu ar gyfer cynlluniau'r DU). Bydd angen i'r rhai sydd am wneud cais i gael eu cofrestru gan yr UE fynd drwy broses gwneud cais ar wahân a weinyddir gan yr UE.
 - Bydd angen cyflwyno darpariaethau apelio diwygiedig, ar ôl i'r DU dderbyn cyfrifoldebau a swyddogaethau newydd a arferai berthyn i'r UE.
 - Bydd angen llunio a defnyddio logos newydd ar gyfer Dynodiadau Daearyddol y DU, gan gynnwys cyfnod mabwysiadu er mwyn i Ddynodiadau Daearyddol cynhyrchion amaethyddol a bwydydd presennol y DU gydymffurfio â'r gofyniad i ddefnyddio logo newydd y DU wrth fasnachu ym marchnad y DU.
- 3.6 Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn rhanddeilaid ar y ddau ddiwygiad olaf.
- 3.7 Fel y nodwyd uchod, wrth adael yr UE a chadw rheoliadau presennol yr UE, bydd angen i'r DU ymgymryd â'r cyfrifoldebau a'r swyddogaethau a gyflawnir ar hyn o bryd gan y Comisiwn Ewropeaidd. Golyga hyn fod angen symleiddio'r broses dau gam bresennol a ddefnyddir ar gyfer cynlluniau Dynodiadau Daearyddol yr UE i greu proses un cam i'r DU, fel y'i nodir yn y tabl isod. Nid yw'r tabl yn effeithio ar ganlyniadau trafodaethau â'r UE sy'n mynd rhagddynt.

Cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â chynlluniau Dynodiadau Daearyddol		
	Cynlluniau Dynodiadau Daearyddol presennol yr UE	Cynlluniau Dynodiadau Daearyddol y DU ar ôl Gadael yr UE
Gorfodi'r cynlluniau yn genedlaethol	<ul style="list-style-type: none"> • Caiff Dynodiadau Daearyddol a gydnabyddir gan yr UE eu gorfodi ym mhob un o Aelod-wladwriaethau'r UE ac mewn trydydd gwledydd drwy gytundebau masnach. 	<ul style="list-style-type: none"> • Caiff Dynodiadau Daearyddol a gydnabyddir gan y DU eu gorfodi yn y DU a thrwy gytundebau masnach yn unig
Y Broses Gwneud Cais	<ul style="list-style-type: none"> • Cam 1: Mae aelod-wladwriaethau yn craffu ar y cais; os yw'n foddhaol bydd yr Aelod-wladwriaeth yn cynnal 	<ul style="list-style-type: none"> • Un broses gwneud cais yn y DU. Bydd y DU yn craffu ar geisiadau, gyda mewnbwn gan y gweinyddiaethau datganoledig. Ar

	<p>gweithdrefn wrthwynebu genedlaethol⁴, sydd ond yn agored i bartïon sydd wedi'u lleoli yn yr Aelod-wladwriaeth honno.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cam 2: Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn craffu ar geisiadau a gymeradwywyd gan Aelod-wladwriaethau/Trydydd Gwledydd. Os ydynt yn foddhaol, bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn cynnal gweithdrefn wrthwynebu agor sy'n agored i bartïon â diddordeb, ac eithrio'r Aelod-wladwriaeth y daeth y cais ohoni. 	<p>gyfer ceisiadau llwyddiannus, bydd cynlluniau Dynodiadau Daearyddol y DU yn darparu ar gyfer un weithdrefn wrthwynebu, a fydd yn agored i bob parti â diddordeb dilys.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Os bydd ymgeisydd o'r DU am wneud cais i'r Comisiwn Ewropeaidd fel trydedd wlad nad yw'n rhan o'r UE bydd yn cyflwyno cais yn uniongyrchol iddo ar ôl iddo gofrestru yn y DU.
Rhoi, neu wrthod rhoi, statws Dynodiad Daearyddol i geisiadau	<ul style="list-style-type: none"> • Y Comisiwn Ewropeaidd sy'n gyfrifol am gofrestru neu wrthod ceisiadau. 	<ul style="list-style-type: none"> • Y DU fydd yn gyfrifol am gofrestru neu wrthod ceisiadau.
Cymeradwyo diwygiadau	<ul style="list-style-type: none"> • Cam 1: Mae Aelod-wladwriaethau/Trydydd gwledydd yn adolygu ceisiadau gan gynhyrchwyr i ddiwygio ceisiadau. • Cam 2: Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn cymeradwyo ceisiadau i wneud diwygiadau dros dro, mân ddigwyddiadau a diwygiadau mawr i geisiadau. 	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y DU yn cymeradwyo ceisiadau i wneud diwygiadau dros dro, mân ddigwyddiadau a diwygiadau mawr i geisiadau i gynlluniau'r DU.
Sefydlu cofrestr wedi'i diweddarau o gynhyrchion â Dynodiadau Daearyddol sydd ar gael i'r cyhoedd.	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn sefydlu cofrestr wedi'i diweddarau o gynhyrchion â Dynodiadau Daearyddol a gydnabyddir yn yr UE sydd ar gael i'r cyhoedd. 	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y DU yn sefydlu cofrestr wedi'i diweddarau o gynhyrchion â Dynodiadau Daearyddol yn y DU sydd ar gael i'r cyhoedd. Bydd y gofrestr yn darparu dolenni i fanylebau cynhyrchion.
Codi ffioedd am weinyddu cynlluniau ⁵	<ul style="list-style-type: none"> • Gall Aelod-wladwriaethau'r UE godi ffi i dalu'r costau y byddant yn mynd iddynt wrth reoli ansawdd cynlluniau, gan gynnwys y rhai yr eir iddynt wrth brosesu 	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd cynlluniau Dynodiadau Daearyddol y DU yn gall codi ffi i dalu'r costau y byddant yn mynd iddynt wrth reoli ansawdd

⁴Gweithdrefn wrthwynebu: Math o ymgynghoriad lle y caiff ceisiadau a gymeradwywyd eu cyhoeddi er mwyn i bartïon â diddordeb eu gwrthwynebu os byddant am wneud hynny. Manylir ar amodau gwrthwynebiad dilys yn y Rheoliadau.

⁵ Noder bod hyn ar wahân i ffioedd a godir gan gyrrff rheoli achrededig am ddilysu cynhyrchion. Codir ffioedd o'r fath o dan gynlluniau'r UE a bydd hyn yn parhau.

	ceisiadau, datganiadau o wrthwynebiad a cheisiadau i wneud diwygiadau a chanslo y darperir ar eu cyfer yn Rheoliad yr UE.	cynlluniau, gan gynnwys y rhai yr eir iddynt wrth brosesu ceisiadau, datganiadau o wrthwynebiad a cheisiadau i wneud diwygiadau a chanslo y darperir ar eu cyfer yn y Rheoliad hwn. Nid oes gan Lywodraeth y DU unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i arfer y swyddogaeth hon, ond efallai y bydd angen iddi adolygu hyn yn y dyfodol.
--	---	--

Rheoliadau ynglŷn â gwirodydd a gwin

- 3.8 Bydd rheoliadau Gadael yr UE yn cadw rheoliadau'r UE ynglŷn â **gwirodydd** yng nghyfraith y DU, ac yn cynnal darpariaethau gorfodi yn y DU. Fel gyda diwygiadau i'r cynlluniau Dynodiadau Daearyddol, diben hyn yw sicrhau y bydd y rheolau yn parhau i weithio yn y DU ac y terfir cyn lleied â phosibl ar randdeiliaid, er enghraifft gan ddileu cyfeiriadau at y 'Comisiwn [Ewropeaidd] a 'darpariaethau'r Undeb [Ewropeaidd]' a rhoi termau priodol y DU yn eu lle. Bydd hyn yn sail i'r cynllun Dynodiadau Daearyddol ar gyfer gwirodydd yn y DU a bydd yn cadw'r rheolau ynglŷn â diffinio, disgrifio, cyflwyno a labelu ar gyfer gwirodydd.
- 3.9 Mae cynnig gan y Comisiwn dyddiedig 1 Rhagfyr 2016 i ddileu'r rheoliad presennol ynglŷn â gwirodydd a chyflwyno un newydd yn ei le, sy'n mynd drwy system ddeddfwriaethol yr UE ar hyn o bryd. Ein bwriad yw y caiff y newidiadau hyn eu hadlewyrchu yn neddfwriaeth y DU, a thybïo y bydd y rheoliad newydd yn gymwys cyn i'r DU adael yr UE.
- 3.10 Bydd Rheoliadau Gadael yr UE hefyd yn cadw rheoliadau'r UE ynglŷn â **gwin a gwin wedi'i bersawru**⁶ yng nghyfraith y DU, ac yn cynnal darpariaethau gorfodi yn y DU. Bydd hyn yn sail i'r cynllun Dynodiadau Daearyddol ar gyfer gwinoedd a gwinoedd wedi'u persawru yn y DU a bydd yn cadw'r rheolau ynglŷn â diffinio, disgrifio, cyflwyno a labelu a'r rheolau gwinyddol⁷ ar gyfer gwinoedd a gwinoedd wedi'u persawru.
- 3.11 Ochr yn ochr â Dynodiadau Daearyddol, mae'r UE hefyd yn gwarchod **termau traddodiadol** y mae cysylltiad agos rhyngddynt a dull penodol o wneud gwin a thyfu gwinwydd neu ardal ddaearyddol benodol (ac sydd, felly, yn eu dwyn i gof). Yn yr un modd, bydd y DU yn gwarchod y termau traddodiadol hyn.
- 3.12 Yn unol â newidiadau arfaethedig i reoliadau ynglŷn â gwirodydd, mae cynigion gan Gomisiwn yr UE i ddileu'r rheoliadau presennol ynglŷn â gwin a gwin wedi'i bersawru a chyflwyno rhai newydd yn eu lle. Mae'r rhain yn mynd drwy system ddeddfwriaethol yr UE ar hyn o bryd. Ein bwriad yw y caiff y newidiadau hyn eu hadlewyrchu yn

⁶Rheoliadau Gwin 2011

⁷ Sy'n ymwneud â'r prif gynhyrchion cemegol ac organig a'r prif gynhyrchion nwy a ddefnyddir i wneud a storio gwin

neddfwriaeth y DU, a thybio y bydd y rheoliadau newydd yn gymwys cyn i'r DU adael yr UE.

4. Diwygiadau i ddarpariaethau cynlluniau Dynodiadau Daearyddol presennol

Logos a symbolau'r DU

- 4.1 Mae logos sy'n dynodi Enw Tarddiad Gwarchodedig (PDO), Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig (PGI) a Gwarant Arbenigedd Traddodiadol (TSG) ar gyfer cynhyrchion amaethyddol a bwydydd, gwin, gwin wedi'i bersawru a gwirodydd yn ofyniad yn neddfwriaeth bresennol yr UE. Bwriadwn ddileu logos yr UE a rhoi logos newydd ar gyfer y DU yn eu lle i'w defnyddio yn y DU ar ôl i ni adael yr UE. Gallai cynhyrchwyr a gofrestrodd o dan gynllun yr UE hefyd ddewis parhau i arddangos logo'r UE⁸.
- 4.2 Os mai dim ond un logo y bydd cynhyrchydd am ei arddangos, a bod logo'r DU yn orfodol, y logo hwn fydd yn cael y flaenoriaeth.
- 4.3 Yr un fydd y rheolau ar ddefnyddio'r logos hyn a'r rheolau a geir yn neddfwriaeth bresennol yr UE. Golyga hyn, yn achos cynhyrchion â Dynodiadau Daearyddol sy'n winoedd, gwinoedd wedi'u persawru a gwirodydd, bydd defnyddio'r logo perthnasol yn ddewisol. Ar gyfer cynhyrchion amaethyddol a bwydydd, bydd defnyddio logo priodol y cynllun ym marchnad y DU yn orfodol. Ar gyfer Dynodiadau Daearyddol presennol y DU, efallai y parheir i ddefnyddio logo priodol yr UE ond bydd ond yn nodi bod y cynnyrch yn cael ei warchod yn yr UE (nid y DU).
- 4.4 Hoffem gael barn rhanddeiliaid ar ddwy agwedd ar y rheolau ar logos:
- 4.5 Yn gyntaf, **hoffem wybod beth y dylai'r logos ei gynrychioli, yn eich barn chi, a sut y gellid adlewyrchu hyn yn y cynllun.** Cofiwch y bydd angen i'r logos fod yn union yr un maint â logos presennol yr UE, y bydd angen i'r cynllun weithio ar gyfer fersiynau lliw a du a gwyn ac y dylent fod yn addas ac yn sensitif i ystod ddaearyddol amrywiol o gynhyrchwyr ledled y DU a thu hwnt.
- 4.6 Mae adborth blaenorol gan randdeiliaid a defnyddwyr wedi tynnu sylw at ansawdd, tarddiad a threftadaeth fel cysylltiadau allweddol â'r cynllun. Rydym yn ymwybodol o'r rôl bwysig y mae logo yn ei chwarae o ran adnabyddiaeth a dealltwriaeth defnyddwyr a busnesau. Rydym am sicrhau bod logos Dynodiadau Daearyddol y DU yn dra

⁸ Ac eithrio os na fydd cytundeb Brexit a bod yr UE yn dileu Dynodiadau Daearyddol y DU o gofrestrau Dynodiadau Daearyddol yr UE. Fodd bynnag, ystyrir bod hyn yn annhebygol o ddiwydd am y byddai'n rhaid i'r UE gyflwyno rheoliadau newydd er mwyn iddo allu gwneud hynny.

chyfarwydd yn y farchnad ac, felly, rydym yn cynnig y dylai logos PDO, PGI a TSG fod yn amrywiadau o'r un cynllun yn hytrach na thri chynllun gwahanol.

- 4.7 Yn ail, am y bydd newid logo yn golygu costau i gynhyrchwyr, o ran ailgynllunio deunydd pacio a chostau ailargraffu, **hoffem gasglu barn ar yr amserlen cyn i'r logo newydd ddod yn orfodol** (fel uchod, ar gyfer cynhyrchion amaethyddol a bwydydd yn unig).
- 4.8 Y cynnig ar gyfer rheoliad Gadael yr UE yw sefydlu 'cyfnod mabwysiadu' o dair blynedd i reoli effaith y newid hwn mewn logo ar Ddynodiadau Daearyddol sefydledig⁹ cynhyrchion amaethyddol a bwydydd o'r DU, Mae hyn yn seiliedig ar waith dadansoddi sy'n nodi bod tair blynedd yn gyfnod rhesymol o amser i alluogi busnesau i ymgorffori newidiadau i labeli yn eu cylchoedd labelu arferol, i'r graddau bod y baich o ran costau yn lleihau i tua 95% (o gymharu â gofyniad i newid y labeli ar unwaith). Felly, asesir na chaiff cyfnod mabwysiadu o dair blynedd fawr ddim effaith net ar fusnesau.
- 4.9 Bydd gan gynhyrchwyr sydd am arddangos y logo newydd cyn diwedd y cyfnod mabwysiadu berffaith hawl i wneud hynny.

- 1. Beth y dylai logos y DU ar gyfer y cynlluniau PDO, PGI a TSG ei gynrychioli a sut y gellid adlewyrchu hyn yn eu cynllun?**
- 2. A yw tair blynedd yn gyfnod mabwysiadu priodol i alluogi deiliaid Dynodiadau Daearyddol presennol y DU i ddiweddarau eu deunydd pacio er mwyn adlewyrchu'r logo newydd? Os nad ydyw, pa mor hir y dylai'r cyfnod mabwysiadu bara?**

Apeliadau:

- 4.10 Mae angen rhoi trefniadau apelio newydd ar waith ar ôl i'r DU dderbyn cyfrifoldeb a swyddogaethau newydd sy'n ymwneud â cheisiadau am Ddynodiad Daearyddol a gyflawnir ar hyn o bryd gan Gomisiwn yr UE¹⁰. Bydd hyn yn cynnwys ymdrin â cheisiadau am Ddynodiad Daearyddol, gan gynnwys ceisiadau am Ddynodiadau Daearyddol newydd, ceisiadau am ddiwygiadau a cheisiadau i ganslo a gweithdrefnau gwrthwynebu a hysbysu cysylltiedig. Bydd Rheoliad Gadael yr UE (fel y'i nodir ym mharagraff 1.1) yn cynnwys diwygiadau a fydd yn galluogi pobl â diddordeb dilys sy'n anghytuno â phenderfyniadau a wnaed gan yr awdurdod cymwys mewn perthynas â Dynodiadau Daearyddol apelio.

⁹ Sefydledig: Dyfarnwyd statws Dynodiad Daearyddol iddynt cyn i'r DU adael yr UE.

¹⁰ Fel y nodir yn y Rheoliad Ewropeaidd ar gynlluniau ansawdd ar gyfer cynhyrchion amaethyddol a bwydydd, Rheoliadau Gwin a Rheoliadau Gwirodydd.

- 4.11 Cynigiwn y dylai apeliadau gael eu cyflwyno i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf. Mae Tribiwnlys yr Haen Gyntaf yn rhan o system llysoedd y DU. Mae'n annibynnol ar Lywodraeth y DU ac yn hollol ar wahân iddi. Fel arfer, caiff gwrandawiadau tribiwnlys eu goruchwyllo gan farnwr tribiwnlys ac aelodau lleyg hyfforddedig o dribiwnlys. Cadeirir Tribiwnlys yr Haen Gyntaf gan Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd.
- 4.12 O dan Reoliad Gadael yr UE cynigir y dylai fod hawl i apelio yn erbyn y canlynol:
- penderfyniad nad yw cais yn bodloni amodau'r cynllun, sy'n arwain at benderfyniad i beidio â symud ymlaen i'r weithdrefn wrthwynebu, sy'n atal y cais rhag mynd rhagddo;
 - penderfyniad i gadarnhau neu wrthod cais yn dilyn y weithdrefn wrthwynebu;
 - penderfyniad i ganiatáu neu wrthod ceisiadau a wnaed i ddiwygio manyleb Dynodiad Daearyddol ar ôl iddo gael ei ddyfarnu;
 - penderfyniad i ganslo PDO, PGI neu TSG.
- 4.13 Mae gan Dribiwnlys yr Haen Gyntaf y pŵer i ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion a allai fod yn sail i apeliadau a sicrhau yr ymdrinnir â'r achosion er budd cyfiawnder a gan gwtogi i'r eithaf ar gostau partïon. Mater i Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd yw penderfynu ar gyfansoddiad panel tribiwnlys a gall gynnwys aelodau anghyfreithiol ag arbenigedd neu brofiad addas mewn apêl yn ogystal â barnwyr tribiwnlys.
- 4.14 Os caiff Tribiwnlys yr Haen Gyntaf ei ddewis fel y corff priodol i wrando apeliadau byddai'n gweithredu o dan Reolau Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd (Tribiwnlys yr Haen Gyntaf) (Y Siambr Reoleiddio Gyffredinol) 2009 sy'n rhoi hyblygrwydd ar gyfer ymdrin ag achosion unigol. Gellir gweld rheolau'r Siambr Reoleiddio Gyffredinol yn: <https://www.gov.uk/government/publications/general-regulatory-chamber-tribunal-procedure-rules>

- 3. A yw Tribiwnlys yr Haen Gyntaf yn lle priodol ar gyfer ymdrin ag apeliadau yn erbyn penderfyniadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yn eich barn chi?**
- 4. A fydd Rheolau'r Siambr Reoleiddio Gyffredinol yn addas ar gyfer ymdrin â'r apeliadau hyn, yn eich barn chi? Os na fyddant, pam?**
- 5. A ydych yn cytuno y dylai hawl i apelio fod yn gymwys i bob penderfyniad a restrir yn 4.12? A oes unrhyw benderfyniadau eraill y dylid eu hychwanegu?**
- 6. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar gynlluniau Dynodiadau Daearyddol newydd y DU, neu'r rheoliadau ynglŷn â gwinoedd a gwirodydd, fel y'u nodir yn y ddogfen hon?**

5. Crynodeb o gwestiynau'r ymgynghoriad

1. Beth y dylai logos y DU ar gyfer cynlluniau PDO, PGI a TSG ei gynrychioli, a sut y gellid adlewyrchu hyn yn eu cynllun?
2. A yw tair blynedd yn gyfnod mabwysiadu priodol i alluogi deiliaid Dynodiadau Daearyddol presennol y DU i ddiweddarau eu deunydd pacio er mwyn adlewyrchu'r logo newydd? Os nad ydyw, pa mor hir y dylai'r cyfnod mabwysiadu bara?
3. A yw Tribiwnlys yr Haen Gyntaf yn lle priodol ar gyfer ymdrin ag apeliadau yn erbyn penderfyniadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yn eich barn chi?
4. A fydd Rheolau'r Siambr Reoleiddio Gyffredinol yn addas ar gyfer ymdrin â'r apeliadau hyn, yn eich barn chi? Os na fyddant, pam?
5. A ydych yn cytuno y dylai hawl i apelio fod yn gymwys i bob penderfyniad a restrir yn 4.12? A oes unrhyw benderfyniadau eraill y dylid eu hychwanegu?
6. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar gynlluniau Dynodiadau Daearyddol newydd y DU, neu'r rheoliadau ynglŷn â gwinoedd a gwirodydd, fel y'u nodir yn y ddogfen hon?

6. Amserlen

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn para am bedair wythnos rhwng 4 Hydref a 1 Tachwedd 2018.

Cyhoeddir yr ymateb i'r ymgynghoriad ar www.gov.uk o fewn 12 wythnos i'r ymgynghoriad ddod i ben.

Dylid dychwelyd ymatebion i GI_scheme_consultation@defra.gsi.gov.uk

Ymatebwch i'r ymgynghoriad yn Lloegr trwy ddefnyddio tudalen 'Consultation Hub' Defra: <https://consult.defra.gov.uk/food/consultation-on-uk-geographical-indications-scheme/>

Neu drwy'r e-bost at GI_scheme_consultation@defra.gsi.gov.uk

Neu mae croeso i chi bostio'ch atebion at:

The GI team,
Defra,
2nd Floor, Horizon House,
Deanery Road,
Bristol. BS1 5TL